PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU
AR GYFER SWYDD Y PRIF WEITHREDWR
7 MAWRTH 2016

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 ("yr Atodlen") Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Uwch benodiad arfaethedig y Prif Weithredwr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o gyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun, 7 Mawrth 2016.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru dyddiedig 23 Chwefror 2016 yn enwebu Mr. Stephen Hughes i swydd statudol y Prif Weithredwr ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ynghyd â'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â Pharagraff 9 yr Atodlen.

Yn unol â Pharagraff 11(2) yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel yr uwch benodiad arfaethedig a chydnabod y sgiliau a'r profiad a gafodd Mr. Hughes dros y 12 mis diwethaf fel Prif Weithredwr Dros Dro.

Cydnabu'r Panel hefyd fod gan Mr. Hughes brofiad sylweddol o weithio ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ac y byddai'n darparu rhinweddau rhagorol ar gyfer rôl y Prif Weithredwr.

Argymhellion:

Y dylid penodi Mr. Stephen Hughes yn Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

16 Mawrth 2016